

## Tasg 2

# Beth? Ble? Pam?

### Diwedd y daith

1. Mae rhai pobl yn newid eu ffonau symudol yn rheolaidd. Yn wir, mae ystadegau'n dangos bod pobl yn newid eu ffôn symudol bob 18 mis fel arfer. Pam maen nhw'n gwneud hyn? Trafodwch hyn mewn grwp.

2. Wrth newid ffôn symudol, mae'n bosib bod yr hen un yn cael ei roi mewn drôr neu mewn cwpwrdd a'i adael yno am amser maith, heb neb yn ei ddefnyddio.

Yn wir, yn ôl rhai arbenigwyr\*:

- Mae rhwng 1 a 3 hen ffôn symudol yn gorwedd o gwmpas ein cartrefi, e.e. mewn droriau, cypyrddau ac ati.
- Mae hyn yn golygu bod tua 6.86 biliwn o ffonau symudol sydd ddim yn cael eu defnyddio.
- Mae hyn yn wastraff llwyr!

OND ...

Mae'n bosib gwneud defnydd da o hen ffonau symudol.

a. Mewn grŵp, trafodwch beth gall pobl ei wneud gyda'u hen ffonau symudol.

b. Beth sy'n digwydd i ffonau symudol sy'n cael eu hailgylchu?

Os nad ydych chi'n siŵr, chwiliwch am wybodaeth ar y we.

Gwnewch nodiadau.

c. Rhannwch eich syniadau chi gyda grwpiau eraill / gyda'r dosbarth.

3. Mew grŵp, rydych chi'n mynd i drefnu ymgyrch arbennig ar gyfer eich ysgol chi – ymgyrch ailgylchu ffonau symudol.

Trafodwch:

- beth yn union fydd yn digwydd
- ble
- pryd – dyddiad ac amser
- ble bydd y ffonau'n mynd
- enw'r ymgyrch
- unrhyw wybodaeth arall.

\* <https://www.musicmagpie.co.uk/mobile-phone-recycling/>

a. Gwnewch ddiagram i gofnodi eich syniadau, e.e. diagram gwe pry cop / corr yn neu ddiagram tebyg.

b. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill. Gan bwy mae'r syniad gorau, tybed?

c. Gwnewch boster i berswadio disgyblion a staff i gymryd rhan yn yr ymgyrch.

ch. Paratowch daflen neu wybodaeth ar gyfer y we sy'n egluro pam mae angen yr ymgyrch yma, e.e.

- gwybodaeth ynglŷn â beth sy'n gallu digwydd i hen ffonau
- pa mor bwysig yw ailgylchu
- beth sy'n digwydd i ffonau sy'n cael eu hailgylchu
- sut mae hyn yn gallu helpu pobl
- unrhyw wybodaeth arall.